



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE

Ymgynghoriad ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus

Diwygio cyrff cyhoeddus y
Weinyddiaeth Cyfiawnder

Papur Ymgynghori CP10/2011
Gorffennaf 2011



Ymgynghoriad ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl a hynny ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn Nhîm Bil Cyrff Cyhoeddus y Weinyddiaeth Cyfiawnder – PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk, ffôn 020 3334 6168.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101811620

Argraffwyd y ddogfen yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ID 2438748 07/11

Fe'i hargraffwyd ar bapur sydd ag o leiaf 75% o'i ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	5
Cyflwyniad	11
Y cyngion	13
Holiadur	32
Gwybodaeth amdanoch chi	35
Manylion cysylltu/Sut mae ymateb	36
Meini prawf ymgynhgori	38
Manylion cysylltu Cydlynnydd yr Ymgynghoriad	39
Atodiad A: Trosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner	40
Atodiad B: Hysbysu rhanddeiliaid ynglŷn â chyhoeddi'r ddogfen ymgynghori (ac eithrio asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau eraill y llywodraeth)	42
Atodiad C: Termau a ddefnyddir yn aml	45

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

I: Papur ymgynghori a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw hwn. Mae'n ofyniad, fel y bo'n berthnasol, ymgynghori â'r cyrff/unigolion hynny, a restrir yng nghymal 10 o'r Bil Cyrff Cyhoeddus, â gweinidogion Cymru a'r Alban ac â'r Arglwydd Brif Ustus. Serch hynny, bwriedir yr ymgynghoriad hwn hefyd ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn y Bil Cyrff Cyhoeddus a'r cynigion sydd ynddo ynglŷn â chyrff y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Hyd: Rhwng 12/07/11 a 11/10/11

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am gael y papur ar fformat arall) i:

Tîm y Bil Cyrff Cyhoeddus
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Pwynt post 3.18
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 6168
Ffacs: 020 3334 6452
Ebst: PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk

Sut mae ymateb:

Anfonwch eich ymateb erbyn 11/10/11 at:
Tîm y Bil Cyrff Cyhoeddus
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Pwynt post 3.18
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 6168
Ffacs: 020 3334 6452
Ebst: PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd ymateb ar lein yn
<http://survey.euro.confirmit.com/wix/p700488344.aspx>

Papur ymateb:

Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn erbyn 31/12/11 yn: <http://www.justice.gov.uk>

Rhagair

Un o nodweddion trawiadol y wladwriaeth fodern yw bod llawer o'i swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus yn hytrach na chan adrannau traddodiadol a gweinidog yn ben arnynt. I bobl gyffredin, gall y cymysgedd o Gyrff Cyhoeddus Gweithredol a Chyrff Cynghori Anadrannol, Adrannau heb Weinidog a chyrff statudol ac anstatudol eraill, fod yn ddryslyd. Mewn egwyddor, mae'r rhesymeg dros gael cyrff cyhoeddus yn dda: er mwyn rhoi rhai agweddau ar lywodraeth ar waith yn effeithiol, mae angen annibyniaeth ac arwahanrwydd. Ond mae angen sicrhau cydbwysedd. Ar brydiau hefyd, fe all cyrff cyhoeddus rwystro trefn agored, gwanhau atebolrwydd neu annog dyblygu ac aneffeithlonrwydd.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau eraill wedi bod yn adolygu eu cyrff cyhoeddus a'u swyddogaethau i weld, yn gyntaf oll, a yw eu swyddogaethau mewn gwirionedd yn angenrheidiol ac yn ail, a ydynt wedi'u ffurfweddu mewn ffordd sy'n sicrhau'r atebolrwydd a'r gwerth gorau. Yn ein hadran ni, o blith yr holl adrannau, y mae'r nifer fwyaf o gyrff cyhoeddus – 350¹ i gyd – a chredwn y gallwn docio o leiaf chwarter y rheini i 264. Rydym am uno, diddymu, a throsglwyddo swyddogaethau er mwyn sicrhau bod pensaernïaeth llywodraeth a'r wladwriaeth yn bensaernïaeth sy'n gweithio a'i bod yn synhwyrol.

Ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r cyrff yr ydym am eu diwygio drwy'r Bil Cyrff Cyhoeddus yw'r ddogfen hon. Mae'r Bil hwnnw'n mynd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd a'i nod yw creu pwerau deddfu a fydd yn ein galluogi i ddiwygio'r system o'i chwyr. Nid oes a wnelo'r Bil â phob un o'r cyrff yr ydym am eu rhesymoli - oherwydd gallwn ddefnyddio'r pwerau deddfu sydd gennym eisoes ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus: bydd eraill yn cael eu diwygio drwy ddulliau gweinyddol, ar y cyd â'r cyrff eu hunain.

Dyma rai o'n cynlluniau, ymhlith eraill: diddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn trosglwyddo'r atebolrwydd yn ôl i weinidogion yn y maes polisi cyhoeddus hollbwysig hwn, a diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd er mwyn lleihau dyblygu. Cynhelir ymgynghoriad ar wahân yn ddiweddarach eleni ynglŷn ag uno swydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a swydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau. Mae'n werth achub ar y cyfle hwn hefyd i egluro, er iddo gael ei ychwanegu at y Bil Cyrff Cyhoeddus drwy welliant nas cynigiwyd gan y llywodraeth, nad yw'n fwriad gennym ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Sifil na defnyddio dim o'r pwerau sydd yn y Bil i'w newid.

Rwy'n croesawu barn ynglŷn ag unrhyw un o'r cynigion yn y papur hwn y mae gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ddiddordeb ynddynt. Rwy'n hyderus y bydd y cynlluniau sydd yn y papur hwn yn galluogi'r adran i gyfrannu'n sylweddol at

¹ Yn cynnwys lluosrifau

Ymgynghoriad ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus

gynlluniau'r Llywodraeth i ddiwygio cyrff cyhoeddus drwy sicrhau llai o ddyblygu gwasanaethau a thrwy wneud gweinidogion yn fwy atebol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L. Clarke'.

Y Gwir Anrhydeddus Kenneth Clarke Cwnsler y Frenhines, AS
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

1. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau i ddiwygio cyrff cyhoeddus ar 14 Hydref 2010, gan ddiweddarau'r cynigion ym mis Mawrth 2011.² Wrth gynnal ein hadolygiad o gyrff cyhoeddus, aeth yr adran i'r afael yn gyntaf oll â'r cwestiwn cyffredinol ynglŷn ag a oedd angen i gorff fodoli ac a oedd angen cyflawni ei swyddogaethau o gwbl. Gan ddilyn yr un drefn â honno a ddilynwyd gan adrannau eraill y Llywodraeth, os mai'r ateb oedd bod angen y corff a'i swyddogaethau, gosodwyd tri phrawf arall ar gyfer pob un ohonynt:
 - a yw'n cyflawni swyddogaeth dechnegol?;
 - a oes angen corff gwleidyddol ddiuedd i gyflawni ei weithgareddau?;
 - a oes angen iddo weithredu'n annibynnol er mwyn sefydlu ffeithiau?
2. Petai'n pasio o leiaf un o'r tri phrawf hyn, ni fyddai corff yn cael ei ddiddymu. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r adran wedi ystyried diwygiadau eraill hefyd, megis uno neu drosglwyddo swyddogaethau, fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i ddileu dyblygu a lleihau nifer y cyrff cyhoeddus a'r gost sy'n gysylltiedig â hwy.
3. Mae'r Llywodraeth am ddefnyddio'r pwerau yn y Bil Cyrff Cyhoeddus i roi ar waith y cynigion a geir yn yr ymgynghoriad hwn ynglŷn â chyrff cyhoeddus yr adran. Yn ôl y Bil Cyrff Cyhoeddus, fel y mae gerbron y Senedd ar hyn o bryd, mae gofyn i weinidogion ymgynghori ynglŷn â'u cynigion cyn cyflwyno gorchymyn drafft, ac mae'r Llywodraeth yn derbyn y gofyniad hwn. Ar y sail honno, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd sylwadau am y cynigion hyn fel mesurau y gellid bwrw ymlaen â hwy drwy orchymyn o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, a dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn a bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Ystyrir pob ymateb yn ofalus, gan gynnwys y rheini sy'n cynnig dewis gwahanol i'r hyn a ffeirir gan y Llywodraeth.
4. Mae'r Bil Cyrff Cyhoeddus yn cynnig fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diwygio, gan roi'r pwerau i weinidogion roi newidiadau ar waith drwy orchymyn. Os nad oes angen swyddogaethau corff rhagor neu os yw wedi cyflawni'r diben y'i crëwyd i'w gyflawni, cynigir diddymu'r corff hwnnw. O dan amgylchiadau priodol, byddai adran berthnasol y Llywodraeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros unrhyw swyddogaethau

² Diwygio Cyrff Cyhoeddus - Cynigion ar gyfer Newid – <http://www.number10.gov.uk/wp-content/uploads/2010-10-14-Public-bodies-list-FINAL.pdf>. Cyhoeddwyd diweddiariad wedyn ym mis Mawrth 2011 – <http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/public-bodies-reform-proposals-change>

- penodol a gedwid, gan sicrhau bod y Llywodraeth yn fwy atebol – un o brif amcanion y diwygiadau. Rhestrir y cyrff y cynigir eu diddymu yn atodlen 1 o'r Bil.
5. Yn atodlen 2 (pŵer i uno) rhestrir y cyrff sydd eisoes wedi cael eu huno drwy drefniant gweinyddol. Drwy eu cynnwys yn atodlen 2, daw'r newidiadau gweinyddol yn ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, yn atodlen 5 (pŵer i addasu neu drosglwyddo swyddogaethau) rhestrir y cyrff y mae angen deddfu yn eu cylch er mwyn trosglwyddo swyddogaethau a chwblhau'r diwygiadau gweinyddol sydd wedi digwydd eisoes. Mae hefyd yn caniatáu trosglwyddo swyddogaethau penodol heb ddiddymu corff yn llwyr.
 6. Un o ofynion cymal 8 o'r Bil Cyrff Cyhoeddus yw na chaiff gweinidog ond wneud gorchymyn os mai barn y gweinidog hwnnw yw y bydd hynny'n gwella'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus, gyda golwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, arbedion a sicrhau'r atebolrwydd priodol i weinidogion; a hefyd nad yw'n dileu gwarchodaeth angenrheidiol nac ychwaith yn atal neb rhag mynnu'r hawliau a'r rhyddid y mae'n rhesymol iddo'u disgwyl.
 7. Rhoddir gwybodaeth gryno isod am bob un o'r cyrff adrannol sydd yn y Bil Cyrff Cyhoeddus, ynghyd â'n cynigion ar gyfer eu diwygio. Mae ambell eithriad, fel y dywedwyd yn Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol. Cynhelir ymgynghoriad ar wahân ynglŷn ag uno swyddi'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau. At hynny, nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw orchymyn ynglŷn â'r Cyngor Cyfiawnder Sifil, a ychwanegwyd at y Bil yn sgil gwelliant yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd: atodlenni yn y Bil – 1-5. Prif ynnig – diddymu'r corff a'i swyddogaeth

8. Corff Cynghori Cyhoeddus Anadrannol yw'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i olynu'r Cyngor Tribiwnlysoedd. Mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yn adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol ac yn cyflwyno adroddiadau yn ei chylch, er nad yw ei ganfyddiadau'n clymu'r Llywodraeth. Barn y Llywodraeth yw mai cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw polisi cyfiawnder gweinyddol ac mai'r adran a ddylai oruchwylio a datblygu'r maes hwn. At hynny, yn sgil sefydlu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd unedig a'i uno wedi hynny â Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi (i ffurfio Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi) (GLITEM) mae trefniadau polisi a llywodraethu'r triwlynlysoedd bellach wedi'u hen sefydlu. Cred y Llywodraeth fod swyddogaeth oruchwylio'r Cyngor Gweinyddu Cyfiawnder a'r Tribiwnlysoedd yn dyblygu y gellir ei wneud mewn mannau eraill ac nad oes modd bellach gyfiawnhau ei gadw yn wyneb cefndir o gyfyngiadau ariannol llym.

Byrddau'r Llysoedd: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynnis – diddymu'r corff a'i swyddogaeth

9. Ar hyn o bryd, drwy Gymru a Lloegr, ceir 19 o Fyrddau'r Llysoedd. Crëwyd y Cyrff Cynghori Anadrannol hyn drwy Ddeddf y Llysoedd 2003 i gydweithio â GLITEM (Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar y pryd) i sicrhau bod y llysoedd yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Barn y Llywodraeth yw mai GLITEM yn wir a ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd a bod ganddo weithdrefnau ar waith i sicrhau gweinyddiaeth effeithiol. Mae cadw Byrddau'r Llysoedd yn dyblygu gweithgarwch ac ni ellir cyfiawnhau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Pwyllgor Rheolau Llys y Goron: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynnis - diddymu'r corff a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r Arglwydd Brif Ustus gan ymgynghori â'r pwyllgorau rheolau eraill.

10. Corff Cynghori Cyhoeddus Anadrannol yw Pwyllgor Rheolau Llys y Goron. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf y Goruchaf Lys 1981 i archwilio unrhyw welliannau arfaethedig i Reolau Llys y Goron ac, ar y cyd â'r Arglwydd Ganghellor, i wneud y rheolau angenrheidiol ar gyfer y llys. Mae swyddogaeth Pwyllgor Rheolau Llys y Goron, o ran gwneud rheolau troseddol, wedi'i hysgwyddo gan Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, sy'n golygu mai'r unig swyddogaeth sydd ganddo bellach yw yng nghyswllt rheolau sifil. Anaml y defnyddir Pwyllgor Rheolau Llys y Goron bellach a'r cynnis yw y dylid diddymu'r corff hwn sydd fwy neu lai'n ddiffrwyth a throsglwyddo'i swyddogaethau prin i'r Arglwydd Brif Ustus, gan ymgynghori â'r pwyllgorau rheolau eraill. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno â'r cynnis mewn egwyddor a barn yr adran yw y bydd hyn o gymorth i symleiddio tirlun ei chyrrff cyhoeddus.

Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (AGLIEM): atodlen yn y Bil – 1. Prif gynnis – diddymu'r corff a throsglwyddo'i swyddogaethau hanfodol i'r arolygiaeth briodol.

11. Sefydlwyd AGLIEM yn 2005 o dan Ddeddf y Llysoedd 2003, fel y'i diwygiwyd yn Neddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Ei phrif swyddogaeth yw arolygu'r system sy'n cynnal busnes y llysoedd a chyflwyno adroddiadau i'r Arglwydd Ganghellor yn ei chylch.
12. Cyhoeddwyd y bwriad o ddiddymu AGLIEM ym mis Rhagfyr 2009 yn wreiddiol ond adolygwyd AGLIEM hefyd gan yr adran drwy ddefnyddio 'tri phrawf' y Llywodraeth Glymblaid. Er ei bod yn bwysig darparu sicrwydd, casgliad yr adolygiad oedd bod systemau'r llysoedd yn gadarn, eu bod cael eu rheoleiddio'n briodol ac y gellid darparu'r sicrwydd hwnnw o fewn GLITEM. Nid oes angen corff annibynnol i arolygu systemau cwbl weinyddol ac mae'r Llywodraeth yn cynnis diddymu AGLIEM gan nad oes angen y rhan fwyaf o'i swyddogaethau bellach. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd arolygiaethau eraill yn ysgwyddo'r swyddogaethau hynny y mae dal

eu hangen, megis sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Phrotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Poenydio.

Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynnis – diddymu - bydd y corff yn cael ei ddirwyn i ben a'i swyddogaeth yn cael ei throsglwyddo i bwyllgorau rheolau eraill.

13. Corff cynghori statudol yw Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon a sefydlwyd o dan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. Ymgynghorir ag ef cyn gwneud ystod gyfyng iawn o reolau'r llysoedd. Mae'r Llywodraeth yn cynnis diddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon oherwydd fe allai pwyllgorau rheolau eraill gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno â'r cynnis.

Swyddfa'r Prif Grwner: atodlen yn y Bil - 5. Prif gynnis - trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus.

14. Cyflwynwyd swyddfa'r Prif Grwner gyntaf oll yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (Deddf 2009). Daeth adran 35 ac atodlen 8 o Ddeddf 2009, a oedd yn creu'r swyddfa, i rym ar 1 Chwefror 2010 a phenodwyd Prif Grwner gan yr Arglwydd Brif Ustus, gan ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor ar y pryd, ym mis Mawrth 2010. Serch hynny, nid yw'r darpariaethau sy'n manylu ynglŷn â rôl, swyddogaethau a phwerau'r Prif Grwner wedi'u rhoi ar waith, ac felly, nid yw swyddfa'r Prif Grwner wedi'i rhoi ar waith. Nid yw'n realistig ymrwymo'r gwariant newydd y byddai gofyn ei wario er mwyn sefydlu swyddfa'r Prif Grwner o dan yr amgylchiadau economaidd presennol. Serch hynny, mae angen diwygio system y crwneriaid fel y mae ar hyn o bryd.
15. Mae'r Llywodraeth yn cynnis gwireddu'r diwygiadau hyn drwy drosglwyddo rhai o swyddogaethau penodol y Prif Grwner naill ai i'r Arglwydd Brif Ustus neu i'r Arglwydd Ganghellor, gan adael swyddfa'r Prif Grwner ar y llyfr statud. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno y gellid trosglwyddo'r swyddogaethau a restrir yn **Atodiad A**. Bydd yr adran hefyd yn sefydlu Bwrdd Gweinidogol, a ategir gan Bwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth. Fe'i cadeirir gan Gadeirydd annibynnol a bydd yn cyflawni rôl anstatudol y Prif Grwner o ran goruchwylio'r gwasanaethau anafarnwrol a ddarperir gan grwneriaid.

Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynnis – diddymu'r corff a'i swyddogaeth

16. Corff statudol yw'r Bwrdd hwn a sefydlwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i graffu ar sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau, i adolygu'r gwaith hwnnw ac i gyflwyno argymhellion ynglŷn â hyn i'r Arglwydd Ganghellor. Barn y Llywodraeth yw y gellid cyflawni swyddogaeth y bwrdd o ran craffu ar ddyletswyddau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus a'u hadolygu, yn effeithiol ac yn fwy effeithlon drwy gyfrwng trefniadau llywodraethu cadarn a chymesur gan

asiantaeth. Yn sgil hynny, mae'r Llywodraeth yn argymhell y dylid diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni o fewn y Llywodraeth. Mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cydnabod ei hun na allai'r math hwn o graffu gan fwrdd cynghori annibynnol barhau i'r dyfodol, yn enwedig ac ystyried y cyfyngiadau ariannol a dyletswydd y Llywodraeth i ganolbwyntio gwariant cyhoeddus ar swyddogaethau hanfodol.

Yr Archifau Gwladol: atodlen yn y Bil – 5. Prif gynig – adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol sydd eisoes wedi'u cwblhau mewn deddfwriaeth.

17. Rhwng 2003 a 2006, unwyd gweinyddiaeth pedwar o gyrff y llywodraeth, pob un ohonynt yn arbenigo ar agweddau penodol ar reoli cofnodion a gwybodaeth, gan ffurfio un corff, sef yr Archifau Gwladol. Y pedwar corff oedd y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, y Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol, Llyfrfa Ei Mawrhydi a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus. Gan ddefnyddio'r Bil Cyrff Cyhoeddus, nod yr adran yw sicrhau bod safle cyfreithiol yr Archifau Gwladol, ceidwad yr Archifau Gwladol a'r gyrff sy'n cynghori'r Arglwydd Ganghellor ynglŷn â chofnodion yn glir. Y cyfan y bydd hynny'n ei wneud fydd adlewyrchu'r trefniant gweinyddol presennol mewn deddfwriaeth, sef y trefniant a roddwyd ar waith rhwng 2003 a 2006, ar ôl sefydlu'r Archifau Gwladol yn 2003.
18. Gwneir hyn drwy roi enw cyfreithiol newydd i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, sef Yr Archifau Gwladol ac i'r Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus, sef Ceidwad yr Archifau Gwladol. Bydd y gyrff hyn, o dan eu henwau newydd, lle bynnag y bo modd, yn cael eu gwneud yn gyfreithiol gyfrifol am gyflawni swyddogaethau penodol a gyflawnir ar hyn o bryd gan y pedwar corff neu ddeiliaid y swyddi sy'n gysylltiedig â hwy. Mae Prif Weithredwr yr Archifau Gwladol ar hyn o bryd, sef Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus wedi cytuno i'r diwygiadau arfaethedig, ac ef sydd wedi tywys y gwaith hwn.

Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynig – diddymu'r corff a'i swyddogaeth

19. Corff Cynghori Cyhoeddus Anadrannol yw'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr. Fe'i sefydlwyd yn 2003 i roi cyfle i ddiodefwyr troseddau gael llais wrth ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol ac am y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer diodefwyr. Mae'n amlwg bod gorgyffwrdd rhwng gwaith y panel a gwaith y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion, sy'n gyfrifol am feithrin cysylltiad â diodefwyr a chyfleu eu barn. Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr gan nad oes angen ei swyddogaethau rhagor ac am fod ei weithgarwch yn cael ei ddyblygu mewn mannau eraill.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: atodlen yn y Bil – 1. Prif gynig – ei ddiddymu fel rhan o ddiwygiadau cyfiawnder troseddol ehangach.

20. Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ynglŷn â gweithredu'r system cyfiawnder ieuenctid ac ynglŷn â pha safonau a ddylai fod ar waith. Mae'n gweithio hefyd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu. Ers hynny, mae darparu cyfiawnder ieuenctid wedi bwrw gwreiddiau cadarn ar lefel leol, drwy Dimau Troseddau Ieuenctid Awdurdodau Lleol a thrwy sefydlu ystâd ddiogel ar wahân i bobl ifanc. Barn y Llywodraeth yw nad oes angen cael goruchwyliaeth annibynnol dros y system cyfiawnder ieuenctid rhagor ac y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd yn ôl i weinidogion. Cynnig y Llywodraeth yw diddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a sefydlu Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid ar wahân o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n briodol a bod swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu cyflawni. Y bwriad yw y bydd grŵp cynghori anstatudol yn cynnig cyngor ac yn gosod her. At hyn, bydd y Fonesig Sue Street, un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr adran sy'n brofiadol ac yn wybodus ym maes cyfiawnder ieuenctid, yn dangos diddordeb brwd yn y maes o fewn yr adran, a bydd ganddi gysylltiad uniongyrchol â'r adran drwy'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cyflwyniad

21. Yn y papur ymgynghori hwn, mae'r adran yn disgrifio'i chynigion ar gyfer diwygio nifer o'i chyrrff cyhoeddus a restrir yn y Bil Cyrff Cyhoeddus. Rhoddir y diwygiadau ar waith drwy is-ddeddfwriaeth ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y Ddeddf. Mae cymal 10 o'r Bil Cyrff Cyhoeddus yn mynnu ei bod yn rhaid i weinidog sy'n bwriadu gwneud gorchymyn o dan gymalau 1-5 o'r Bil ymgynghori:
- â'r corff neu â deilydd y swydd y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef;
 - â pha rai bynnag eraill sydd, yng ngolwg y gweinidog, yn cynrychioli buddiannau yr effeithir arnynt yn sylweddol yn sgil y cynnig;
 - â Gweinidogion yr Alban os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yn yr Alban neu yng nghyswllt yr Alban lle bydd Gweinidogion yr Alban yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny (a lle nad oes gofyn cael caniatâd Senedd yr Alban o dan adran 9);
 - ag un o adrannau Gogledd Iwerddon os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon neu yng nghyswllt Gogledd Iwerddon lle bydd yr adran yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny (a lle nad oes gofyn cael caniatâd Cynulliad Gogledd Iwerddon o dan adran 9);
 - â Gweinidogion Cymru os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yng Nghymru neu yng nghyswllt Cymru lle bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny (a lle nad oes gofyn cael caniatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 9);
 - lle bydd y swyddogaethau y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn berthnasol i weinyddu cyfiawnder, â'r Arglwydd Brif Ustus;
 - â pha rai bynnag eraill y bydd y gweinidog yn eu hystyried yn briodol.
22. Byddai croeso hefyd i bartïon eraill â diddordeb fynegi eu barn. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r diwygiadau â chyrrff sy'n gweithredu yn nhiriogaeth Cymru a Lloegr ond mae rhai'n gweithredu yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon hefyd. Mae fersiwn Gymraeg ar gael yn www.justice.gov.uk
23. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori. Dilynydd y meini prawf ar gyfer ymgynghori, a restrir ar dudalen 38.
24. Nid oes Asesiad Effaith wedi'i gynnal ar gyfer pob corff. Lle bo hynny'n berthnasol, rhoddir mwy o fanylion am y rhesymau dros hyn yn y bennod nesaf lle y trafodir cyrrff unigol yn fwy manwl. Mae Asesiadau Effaith wedi'u paratoi ar gyfer y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, AGLIEM a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Mae'r Asesiadau Effaith a gwblhawyd yn dangos mai prin fydd effaith ehangach

y cynigion i bob golwg oherwydd, lle bo hynny'n briodol, fe gaiff swyddogaethau eu trosglwyddo yn ôl i'r adran, neu mewn ambell achos, i'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau bod modd parhau i ddarparu gwasanaethau priodol. Nid yw'r cynigion yn debygol o arwain at gostau nac arbedion ychwanegol i fusnesau, i elusennau nac i'r sector gwirfoddol, nac ychwaith i'r sector cyhoeddus. Cyhoeddir yr Asesiadau Effaith a gwblhawyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon. At hynny mae ymarferion sgrinio cychwynnol Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer pob corff ac fe gyhoeddir y rheini ar wahân hefyd. Ystyrir a fydd gofyn cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob corff yng ngoleuni'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn.

25. Mae croeso cynnes i bobl gynnig sylwadau am yr Asesiadau Effaith a'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.
26. Rhoddwyd gwybod i'r grwpiau a ganlyn fod y papur ymgynghori hwn wedi'i gyhoeddi:
 - Cyrff y mae gofyn inni ymgynghori â hwy o dan gymal 10 o'r bil – gweler paragraff 21 uchod.
 - Grwpiau cynrychioladol allweddol a nodwyd gan swyddogion yr adran. Mae rhestr lawn o'r rhanddeiliaid a awgrymwyd, fesul corff, i'w gweld yn **Atodiad B**,
27. Serch hynny, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac iddi gau'r drws ar neb, a chroesewir ymateb gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn am y pynciau y mae'r papur hwn yn ymdrin â hwy.

Y cynigion

28. Mae'r bennod hon yn rhoi rhagor o gefndir am gyrff yr adran sydd yn y Bil Cyrff Cyhoeddus, ac mae'n crynhoi'r cynigion ar gyfer pob corff gan fanylu ynglŷn â rhesymau'r Llywodraeth dros gredu mai'r llwybr a gynigir yw'r llwybr mwyaf priodol. Y prif nod wrth gyflwyno'r cynigion oedd cryfhau atebolrwydd ac yn lleihau dyblygu. Fel y nodwyd uchod yn y ddogfen hon, nid yw swyddi'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau a'r Cyngor Cyfiawnder Sifil wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwilysoedd

29. Corff cynghori yw'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwilysoedd (y Cyngor) a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwilysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (Deddf 2007). Daeth y Cyngor hwn yn lle'r Cyngor Tribiwilysoedd a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwilysoedd ac Ymchwiliadau 1958.
30. Roedd Deddf 2007 yn cyflwyno fframwaith statudol symlach i'r triwilysoedd, gan olygu bod modd datblygu Gwasanaeth Tribiwilysoedd unedig a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o driwilysoedd llywodraeth ganol ac fel yr oedd Syr Andrew Leggatt yn ei ragweld yn ei adolygiad, 'Tribiwilysoedd ar gyfer Defnyddwyr – Un System, Un Gwasanaeth'³ a gyhoeddwyd yn 2001.
31. Mae'r Cyngor yn gwasanaethu'r Deyrnas Unedig, ac mae ganddo Bwyllgor Statudol yng Nghymru ac yn yr Alban. Mae'n gyfrifol am adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol yn barhaus; am adolygu cyfansoddiad a gwaith triwilysoedd 'rhestredig' a chyflwyno adroddiadau ynghylch hynny; am adolygu cyfansoddiad a gwaith ymchwiliadau statudol a chyflwyno adroddiadau yn eu cylch.
32. Yng nghyswllt cyfiawnder gweinyddol, rhai o swyddogaethau'r Cyngor yw ystyried sut y gellir gwneud y system yn fwy hygyrch, yn fwy teg ac yn fwy effeithlon. Bydd y Cyngor hefyd yn cynghori'r Arglwydd Ganghellor, gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban ac Uwch Lywydd y Tribiwilysoedd, ynglŷn â datblygu cyfiawnder gweinyddol ac ynglŷn â chynigion ar gyfer newid neu ar gyfer ymchwil. Yn Neddf 2007 diffinnir cyfiawnder gweinyddol fel hyn: y system gyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol eu natur ynglŷn â phobl benodol, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r fath, y gyfraith y'u gwneir o dani a'r system ar gyfer datrys anghydfodau a chwyno ynglŷn â'r penderfyniadau hynny. Yn ogystal â thriwilysoedd,

³ Ar gael yn <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.tribunal-review.org.uk/>

- mae hefyd yn cynnwys Ombwdsmyr a dulliau eraill o ddatrys anghydfodau.
33. Un o swyddogaethau'r Cyngor yng nghyswllt tribiwnlysoedd yw cyflwyno adroddiadau am faterion sydd o bwys arbennig ym maes tribiwnlysoedd rhestredig. Tribiwnlysoedd rhestredig yw Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uwch a thribiwnlysoedd a restrir drwy orchmynion gan yr Arglwydd Ganghellor a gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Un o'i swyddogaethau yng nghyswllt ymchwiliadau statudol yw ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i ymchwiliadau statudol sydd o bwys arbennig ym marn y Cyngor a chyflwyno adroddiad ynglŷn â hynny. O safbwynt ymarferol, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ymchwiliadau sy'n ymwneud â defnydd tir.
 34. Mae tîm pwrpasol o weision sifil yng Ngrŵp Polisi Cyfiawnder yr adran yn gyfrifol am gynnig cyngor annibynnol ynglŷn â pholisi cyfiawnder gweinyddol strategol. Mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd llywodraeth ganol erbyn hyn wedi cael eu cynnwys yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd (sydd bellach yn rhan o GLITEM) gan wahanu'r broses apêl oddi wrth y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol – un o brif argymhellion adolygiad Syr Andrew Legatt yn 2001. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith rhwng GLITEM a'r adran sy'n golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni rôl goruchwylio yng nghyswllt y tribiwnlysoedd bellach. Mae'r tîm cyfiawnder gweinyddol yn yr adran wedi ymrwymo i weithio'n glos ac yn rhagweithiol gydag adrannau eraill y llywodraeth i sicrhau ymagwedd gydlynol a chyson at bolisi cyfiawnder gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd a allai wella profiad y defnyddiwr.
 35. Yn yr un modd, ni chredir bod rôl y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng nghyswllt ymchwiliadau statudol yn angenrheidiol bellach oherwydd bod yr Arolygiaeth Cynllunio, un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, erbyn hyn wedi sefydlu Uned Sicrhau Ansawdd gadarn, a honno'n gweithredu ar draws pob un o swyddogaethau'r Arolygiaeth Cynllunio er mwyn sicrhau bod safonau a gweithdrefnau priodol yn cael eu cynnal. Mae'r uned hon, yn gallu argymhell, fel y bydd angen, newidiadau i Bwyllgor Archwilio'r Arolygiaeth Cynllunio, neu i brif fwrdd yr arolygiaeth. Mae'r bwrdd hefyd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n sicrhau trefn craffu allanol.
 36. Mae'r Llywodraeth wedi gwrandao ar y pryderon a fynegwyd gan arglwyddi yn ystod hynt y Bil Cyrff Cyhoeddus ac mae'n cydnabod bod y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a Chyngor y Tribiwnlysoedd o'i flaen wedi chwarae rôl ddylanwadol o ran cynorthwyo i wireddu Gwasanaeth unedig y Tribiwnlysoedd, er enghraifft. Fodd bynnag, am y rhesymau a restrir ym mharagraffau 34 a 35 uchod, mae'r Llywodraeth yn dal i gredu nad yw cael corff cynghori annibynnol i gyflawni swyddogaethau ym maes cyfiawnder gweinyddol, tribiwnlysoedd ac ymchwiliadau statudol, nac yn ffordd effeithlon na darbodus o ddefnyddio adnoddau rhagor.

37. Bydd diddymu'r Cyngor yn sicrhau llai o ddyblygu ymdrech ac adnoddau. Er nad oes cyfeiriad penodol at hyn yn y ddeddfwriaeth, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar brofiad a safbwynt defnyddwyr. Nid yw'r adran yn credu yr effeithir er gwaeth ar y gwasanaeth i ddefnyddwyr yn sgil y cynnig i ddiddymu: bydd yn gwrando ar farn defnyddwyr ac yn ei hystyried, gan ddisgwyl i bob corff cyhoeddus sy'n ymwneud â chyfiawnder gweinyddol wneud yr un fath. Mae gan bron pob un o awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd o fewn GLITEM grwpiau defnyddwyr er mwyn i ddefnyddwyr allu trafod materion sy'n eu poeni gyda'r farnwriaeth a rheolwyr GLITEM. Mae arolygon rheolaidd wedi'u cynnal ymhlith cwsmeriaid hefyd yn ogystal â system ar y we i gasglu adborth a chael golwg ar berfformiad a'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid.
38. Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli pa mor bwysig yw gwella ansawdd y broses penderfynu wreiddiol a bydd yr adran yn dal i adeiladu ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud gyda'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau gwreiddiol er mwyn adolygu'r broses o'r naill ben i'r llall. Bydd yr adran yn gweithio'n glos hefyd gyda Swyddfa'r Cabinet, a fydd yn dal yn gyfrifol am bolisi sy'n ymwneud ag Ombwdsmyrn. Mae'r tîm polisi arbennig ar gyfer cyfiawnder gweinyddol mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar ddatblygu polisi o'r cychwyn er mwyn sicrhau bod cyfiawnder gweinyddol yn rhan allweddol o'r agenda ehangach i ddiwygio cyfiawnder er mwyn cael golwg gyffredinol ar y system drwyddi draw. Mae'r tîm wedi ymrwymo i sicrhau bod nodweddion unigryw tribiwnlysoedd, megis eu bod yn hygyrch ac yn anffurfiol, yn parhau ac wedi ymrwymo hefyd i weithio gyda'r farnwriaeth er mwyn gwarchod rhag gwneud y tribiwnlysoedd yn 'or-farnwrol' eu natur.
39. **Gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban:** Bydd Pwyllgorau'r Cyngor yng Nghymru a'r Alban yn dal i fodoli nes y caiff y Cyngor ei ddiddymu. Gwaith y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban fydd gwneud pa drefniadau bynnag y gallant sy'n gweddu i'w hamgylchiadau, ar ôl dirwyn y Cyngor i ben. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a oes gan y weinyddiaeth ddatganoledig y cymhwysedd deddfwriaethol i sefydlu corff statudol i gynghori ynglŷn â chyfiawnder gweinyddol. Yn ogystal â hynny, mae Prif Weinidog Cymru wedi gofyn a ellid trosglwyddo'r hawl sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd i arsylwi mewn tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, er mwyn hwyluso diwygio'r tribiwnlysoedd yng Nghymru. Bydd yr adran yn gweithio gyda'n cyfeillion yn y Llywodraeth ddatganoledig i gadw golwg ar y sefyllfa ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ac i rannu profiadau a'r arferion gorau.
40. **Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd:** Ar hyn o bryd, enwebir un o aelodau Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd, sy'n gwneud ac yn diwygio'r rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys, gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i sut orau mae sicrhau bod llais defnyddiwr y tribiwnlys yn cael ei glywed ar y pwyllgor os nad enwebir rhywun gan y Cyngor. Mae aelodau'r Pwyllgor ac enwebai'r Cyngor yn benodol yn gwneud llawer iawn o waith. Barn

Cadeirydd y Pwyllgor yw y byddai'n beth da rhoi mwy o amlygrwydd i safbwynt y defnyddwyr ac y byddai'n gymorth mawr i'r pwyllgor gael dau aelod yn cynrychioli llais y defnyddiwr. Mae wedi awgrymu y dylid penodi dau aelod a allai gyflwyno safbwynt gwahanol fathau o ddefnyddwyr i'r pwyllgor, ac wrth wneud y penderfyniadau hynny, ymgynghorid â sefydliadau sy'n cynrychioli mathau o bobl a fyddai'n debygol o ddefnyddio'r tribiwnlysoedd neu sydd wedi cael profiad o weithio gyda phobl o'r fath, gan eu gwahodd i enwebu aelodau. Dylid gwneud trefniadau pontio gan egluro y caiff enwebai presennol y Cyngor aros yn un o'r lleoedd hyn nes daw ei chyfnod i ben ym mis Ebrill 2013.

41. Mae'r adran yn amcangyfrif y bydd diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwiwnlysoedd yn arbed swm cronus nominal gweinyddol o oddeutu £4.3 miliwn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 i 2014-15 ar sail gwariant llinell sylfaen 2010-11. Sylwer mai amcangyfrif yw'r ffigur hwn ac y gall newid.

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwiwnlysoedd?

Cwestiwn 2: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwiwnlysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 3: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Byrddau'r Llysoedd

42. Swyddogaeth cyngori sydd gan Fyrddau'r Llysoedd, gan sicrhau bod y llysoedd yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydnabod anghenion amrywiol y gymuned. Fe'u sefydlwyd er mwyn sicrhau bod llais ynadon yn dal i gael ei glywed o fewn Gwasanaeth unedig Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM ar y pryd, GLITEM erbyn hyn). Yn sgil uno byrddau o fewn yr hen GLIEM, mae nifer Byrddau'r Llysoedd wedi gostwng o 42 i 19 o fyrddau ardal a'r rheini'n fwy o faint. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu cynrychioli'r gymuned yn ei chrynswth gystal.
43. Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu'r 19 Bwrdd gan fod ffyrdd eraill o sicrhau bod safbwyntiau ynadon a safbwyntiau'r gymuned ehangach yn cael eu hystyried. O ran ynadon, mae'r ffyrdd eraill hyn yn cynnwys y Grwpiau Materion Ynadon a'r Fforymau Barnwrol Ardal a'u diben hwy yw sicrhau bod barn ynadon yn cael ei chlywed. Roedd Adran 21 o Ddeddf y Llysoedd 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori ag ynadon ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddynt ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu perthynas leol gref rhwng GLITEM a Chadeiryddion Meinciau'r Ynadon.

44. Eir i'r afael ag anghenion y gymuned drwy weithgareddau megis arolygon boddhad cwsmeriaid, diwrnodau agored a chyfarfodydd defnyddwyr y llysoedd. At hynny, mae GLITEM wedi ymrwmo i feithrin a chadw cysylltiad â chymunedau lleol, ac mewn ardaloedd lleol, fe'u hanogir i archwilio opsiynau eraill er mwyn sicrhau na cholli'r cysylltiad hwnnw rhwng y llysoedd a chymunedau lleol. Bydd hyn yn bwysig yng nghydestun ehangach y rhaglen cau llysoedd sydd ar waith ar hyn o bryd, rhaglen sy'n ceisio moderneiddio'r llysoedd a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n well.
45. Bydd rhoi mwy o hyblygrwydd i GLITEM ddatblygu ei dulliau ei hun o weithio gyda'r gymuned yn fwy effeithiol ac yn sicrhau mwy o atebolrwydd lleol. Bydd hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd iddo allu ymaddasu i amgylchiadau wrth iddynt newid, a hynny heb gyfyngiadau statudol.
46. Dim ond swyddogaeth cynghori fu gan Fyrddau'r Llysoedd erioed. Erbyn hyn, mae eu rôl yn fwy cyfyng ac mae dulliau amgen ar waith ar gyfer cysylltu ag ynadon a chymunedau lleol ac i gasglu adborth gan ddefnyddwyr. Barn yr adran yw ei bod yn briodol diddymu Byrddau'r Llysoedd er mwyn dileu'r dyblygu hwn ar adnoddau a gwarchod gwasanaethau'r rheng flaen.
47. Disgwylir y bydd diddymu Byrddau'r Llysoedd yn arbed swm cronus nominal gweinyddol o oddeutu £1.4 miliwn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 i 2014-15 ar sail gwariant llinell sylfaen 2010-11. Sylwer mai amcangyfrif yw'r ffigur hwn ac y gall newid.
48. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer Byrddau'r Llysoedd gan nad yw'r cynnig i'w diddymu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Byrddau'r Llysoedd?

Cwestiwn 5: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Byrddau'r Llysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, sut y gall llysoedd a thribywnlysoedd lleol atgyfnerthu'r cysylltiad sydd rhyngddynt a'r gymuned leol?

Cwestiwn 7: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Pwyllgor Rheolau Llys y Goron

49. Pwyllgor Rheolau Llys y Goron a fyddai'n gwneud yr holl reolau i Llys y Goron. Serch hynny, er 2005, mae'r rheolau ar gyfer achosion troseddol wedi'u gwneud ar ffurf Rheolau'r Weithdrefn Droseddol gan Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol. Mae hyn yn golygu bod cylch gwaith y pwyllgor wedi'i gyfyngu i wneud rheolau ar gyfer materion sifil yn Llys y Goron. Ychydig o achosion o'r fath sydd ac mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r rhain yn gyfyngedig a phur anaml y mae angen eu diwygio.
50. Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron a throsglwyddo'r swyddogaethau sy'n weddill i'r Arglwydd Brif Ustus, gan ymgynghori â'r pwyllgorau eraill sy'n creu rheolau. Bydd hyn yn disodli pwyllgor nas defnyddir yn aml ac yn ei le'n creu trefniant mwy addas ar gyfer y swyddogaeth diweddar achlysurol iawn y mae'n ei chyflawni ar hyn o bryd yn y maes cyfyngedig hwn. Dim ond unwaith mae pwyllgor Rheolau Llys y Goron wedi diwygio'r rheolau yn y chwe blynedd diwethaf (yn 2009).
51. Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod unrhyw gyfiawnhad dros gadw pwyllgor yn unswydd at y diben hwn ac ystyried bod modelau amgen ar gael - megis hwnnw a fabwysiadwyd dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ar gyfer rheolau a wneir gan yr Arglwydd Brif Ustus. Mae modd i'r Arglwydd Brif Ustus wneud y gwaith a wneir gan y pwyllgor o dan drefniadau sy'n ei alluogi i ymgynghori ac elwa o arbenigedd pwyllgorau rheolau eraill sydd â chylch gwaith mwy sylweddol parhaus (Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil, Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu). Bydd hyn yn sicrhau bod y Farnwriaeth yn dal i gyfrannu'n briodol at ddatblygu cynigion ar gyfer gwneud rheolau newydd. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno mewn egwyddor â diddymu'r pwyllgor.
52. Ni ddisgwylir i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron arwain at arbedion gweinyddol.
53. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer Pwyllgor Rheolau Llys y Goron gan nad yw'r cynnig i'w ddiddymu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron?

Cwestiwn 9: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r Arglwydd Brif Ustus ac i'r pwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau Llys y Goron? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (AGLIEM):

54. Mae cyd-destun gwaith AGLIEM wedi newid yn sylweddol ers ei sefydlu yn 2005. Sefydlwyd rhagflaenydd AGLIEM, Arolygiaeth Gwasanaeth Llysoedd Ynadon Ei Mawrhydi, cyn i'r llysoedd ynadon ddod yn rhan o'r gwasanaeth llysoedd cenedlaethol, ac roedd hi'n iawn bryd hynny bod corff annibynnol ar gael i arolygu system ranbarthol nad oedd yn atebol i'r Senedd.
55. Ers hynny, mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi wedi'i sefydlu un corff i fod yn gyfrifol am weinyddu pob llys (ac yn awr, ers sefydlu GLITEM, i weinyddu'r holl lysoedd a'r tribiwnlysoedd). Mae gan GLITEM brosesau rheoli ac archwilio cadarn ar waith i sicrhau bod prosesau gweinyddu'r llysoedd yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau gwirio a chamau diogelu priodol. Bydd atebolrwydd llawn a phriodol o hyd – mae GLITEM yn atebol i weinidogion, ac yn y pen draw, i'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a thrwy hynny'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn gwneud y gwaith craffu allanol arno.
56. Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu GLITEM ar y sail nad yw'n briodol rhagor i gorff annibynnol oruchwylio swyddogaethau gweinyddol pur ac oherwydd bod trefniadau eraill ar waith i sicrhau gweinyddiaeth effeithiol. Mae'r Llywodraeth yn dal yn ymroddedig i gyd-arolygu'r system cyfiawnder troseddol. Cynigir trosglwyddo swyddogaethau o GLITEM i'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill er mwyn i gydarolygiadau cyfiawnder troseddol yn y dyfodol allu cynnwys arolygu GLITEM. Mae'r Bil Cyrff Cyhoeddus yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r cyrff a ddiddymir. Bydd hyn yn golygu y gellir rhoi'r awdurdod angenrheidiol i arolygiaethau eraill arolygu agweddau perthnasol ar weinyddiaeth y llysoedd a hynny at ddibenion arolygu o'r naill ben i'r llall yn unig (er enghraifft dilyn trywydd categorïau o achosion o'r arestio gwreiddiol i'r cyhuddiad, ymddangos yn y llys, canlyniad y llys ac adsefydlu neu gadw dan glo).
57. O dan yr un darpariaethau, trosglwyddir swyddogaethau i alluogi Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i arolygu'r ardaloedd lle cedwir pobl dan glo yn y llysoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Phrotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Poenydio.
58. Nid yw AGLIEM wedi bod ar waith ers 31 Rhagfyr 2010. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chytundeb llawn uwch dîm rheoli AGLIEM, y byddai'n well cau'r arolygiaeth drwy drefniant gweinyddol cyn ei chau drwy drefniant deddfwriaethol.
59. Yn sgil y ffaith bod nifer y staff yn gostwng ac ansicrwydd blaenorol ynglŷn â'r dyddiad cau, roedd yn fwyfwy anodd i AGLIEM ddarparu unrhyw waith newydd ac ystyrion ar gyfer ei staff. Ystyriwyd mai cael dyddiad cau pendant fyddai'r ateb gorau i'r staff, drwy eu galluogi i sicrhau lle ffurfiol ar y rhestr adleoli, a'u hystyried yn flaenoriaeth pan fyddai swyddi gwag yn codi, gan alluogi AGLIEM i roi cynllun cau ffurfiol ar waith.

60. Caewyd AGLIEM drwy drefniant gweinyddol ym mis Rhagfyr 2010. Amcangyfrifir mai bychan iawn fydd y costau a'r buddion sy'n deillio o'r cau ffurfiol. Ar sail cyllideb flynyddol wreiddiol 2010–11, roedd AGLIEM yn costio oddeutu £2 filiwn y flwyddyn i'w chynnal. Gan fod AGLIEM wedi cau drwy drefniant gweinyddol yn gynharach na'r disgwyl, ei alldro yn 2010–11 oedd £1.2 miliwn. Yn sgil y cau, ni fydd yr adran yn ysgwyddo'r costau hyn rhagor.

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu AGLIEM?

Cwestiwn 11: A oes unrhyw rai o swyddogaethau AGLIEM na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon

61. Bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon cyn gwneud rheolau o dan adran 144 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 sy'n rheoleiddio ac yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â'r weithdrefn a'r arferion sydd i'w dilyn yn y llysoedd ynadon a chan glercod yr ynadon a swyddogion penodedig.
62. Crëwyd Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu drwy Ddeddf y Llysoedd 2003. Ar ôl i'r pwyllgorau hynny gael pwerau i wneud rheolau i lywodraethu'r arferion a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn achosion troseddol ac achosion teulu, yn y drefn honno, crebachodd swyddogaethau Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon yn sylweddol.
63. Yr un swyddogaeth sy'n weddill gan y Pwyllgor yw bod yr Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, yn ymgynghori ag ef cyn gwneud rheolau sy'n berthnasol i achosion sifil nad oes a wnelont â theuluoedd yn y llysoedd ynadon. Mae hyn yn ymwneud ag ystod gyfyng iawn o achosion ac anaml y gwneir rheolau o'r fath.
64. Cynigir y dylai'r Arglwydd Brif Ustus barhau i wneud y rheolau hyn, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor. Cyn gwneud hynny, byddai'r Arglwydd Brif Ustus yn gallu ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol, â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu neu â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil, fel sy'n briodol.
65. At hynny, ymgynghorir â Phwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon, ynghyd ag â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu, cyn gwneud rheolau penodol ynglŷn ag ynadon heddwch a chlercod ynadon, gan gynnwys:
- cyrsiau hyfforddi i'w cwblhau cyn y caiff rhywun gyflawni swyddogaethau ynad lleeg;

- gweithdrefn ar gyfer enwebu ymgeiswyr i'w hethol yn gadeirydd neu'n ddirprwy gadeirydd ardal cyfiawnder lleol;
 - cymeradwyo ynadon lleyg cyn iddynt gael llywyddu yn y llys a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod digon o ynadon lleyg ar y fainc.
 - hyfforddi, datblygu ac arfarnu ynadon lleyg;
 - y pethau hynny yr awdurdodir ynad unigol i'w gwneud y gallai clerics ynadon eu gwneud yn lle hynny.
66. Cynigir y dylid dal i ymgynghori â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol ac â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Teulu cyn diwygio unrhyw reolau o'r fath. Mae'r ddau gorff hyn yn cynnwys aelodau sydd ag arbenigedd penodol ym maes y llysoedd ynadon ac maent mewn sefyllfa dda i gynghori'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor ac iddynt hwythau ymgynghori ag yntau.
67. Ni all y Llywodraeth gyfiawnhau cadw Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon. Mae cwmpas ei waith yn fwy cyfyng nag yr oedd a byddai'n anodd recriwtio aelodau o'r safon ofynnol i wasanaethu ar gorff mor gyfyng ei gylch gwaith. Gwaith ymgynghorol yw gwaith y pwyllgor ac mae gan bwyllgorau rheolau eraill sydd â chylch gwaith mwy sylweddol yr arbenigedd angenrheidiol i gynghori'r Arglwydd Brif Ustus cyn y gwneir rheolau. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon.
68. Ni ddisgwylir unrhyw arbedion gweinyddol yn sgil diddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon.
69. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon gan nad yw'r cynnig i'w ddiddymu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon?

Cwestiwn 13: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon a throsglwyddo'i swyddogaethau ymgynghorol i bwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Swyddfa'r Prif Grwner

Yr angen i ddiwygio system y crwneriaid yng Nghymru a Lloegr

70. Yn 2003, craffwyd ar system y crwneriaid yng Nghymru a Lloegr drwy Ymchwiliad Shipman⁴ a'r Adolygiad Sylfaenol o Ardystio ac Archwilio Marwolaethau (Adolygiad Luce)⁵. Canfu'r Adolygiadau hyn nifer o wendidau, gan gynnwys lefelau gwasanaeth anghyson i bobl a oedd wedi cael profedigaeth a diffyg arweiniad a hyfforddiant i grwneriaid.
71. Drwy Ran Un o Ddeddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (Deddf 2009) crëwyd fframwaith newydd i grwneriaid a'i nod oedd darparu mwy o arweiniad ac atebolrwydd ar gyfer crwneriaid yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn darparu ar gyfer creu swyddfa'r Prif Grwner gan freinio nifer o swyddogaethau statudol yn y swyddfa honno. Rhagwelwyd y byddai gan y Prif Grwner rôl anstatudol hefyd o ran goruchwyllo ac arwain crwneriaid.
72. Ar ôl adolygu darpariaethau Deddf 2009 yn haf 2010, casglodd y Llywodraeth, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, na ellid cyfiawnhau'r gwariant newydd y byddai creu swyddfa'r Prif Grwner a rhoi'r deddf ar waith yn llawn yn ei olygu. Amcangyfrifwyd mai cost hyn fyddai oddeutu £10.9 miliwn o ran costau sefydlu (gan gynnwys blwyddyn gysgodi), a £6.5 miliwn y flwyddyn o ran costau cynnal.
73. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig o hyd i ddiwygio'r system ac mae'n sylweddoli bod angen gwneud hyn. Felly, ar 14 Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu diddymu swyddfa'r Prif Grwner a throsglwyddo rhai o'i swyddogaethau i gyrff eraill. Dilëwyd swyddfa'r Prif Grwner o atodlen 1 o'r Bil yn ystod cam pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd yn ystod y ddadl ynglŷn â goruchwyllo system y crwneriaid, cynigir yn awr y dylid rhestru'r swyddfa yn atodlen 5. Mae hyn yn dilyn trafodaethau ynglŷn ag atebion posibl gydag arglwyddi a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y maes a chafwyd rhywfaint o gefnogaeth i hyn gan yr arglwyddi. Bydd hyn yn golygu bod swyddfa'r Prif Grwner yn aros ar y llyfr statud, ac y trosglwyddir y rhan fwyaf o ddarpar swyddogaethau'r swyddfa honno naill ai i'r Arglwydd Ganghellor, neu i'r Arglwydd Brif Ustus er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r diwygio. Mae'r adran hefyd yn sefydlu Bwrdd Gweinidogol i sbarduno'r newidiadau y mae eu hangen ar y system.

Trosglwyddo Swyddogaethau

74. Yn y tabl yn **Atodiad A** ceir manylion y swyddogaethau statudol hynny sydd gan y Prif Grwner, fel y'u rhestrir yn Neddf 2009, y mae'r Llywodraeth yn cynnig eu trosglwyddo naill ai i'r Arglwydd Brif Ustus neu i'r Arglwydd Ganghellor. Lle na chaiff swyddogaeth ei throsglwyddo, y

⁴ <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20051229120000/http://www.the-shipman-inquiry.org.uk/home.html>

⁵ <http://www.archive2.official-documents.co.uk/document/cm58/5831/5831.pdf>

rheswm yw nad oes modd rhoi swyddogaethau o'r fath ar waith yn yr hinsawdd economaidd bresennol, oherwydd y byddent yn arwain at gostau ychwanegol. Ni fydd swyddogaethau nas trosglwyddir yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r swyddogaethau hynny a drosglwyddir yn cynnwys darpariaeth i roi'r pŵer i'r Arglwydd Brif Ustus gyhoeddi rheoliadau hyfforddi i grwneriaid. Gallai'r rhain gynnwys gofynion penodol ar gyfer achosion sy'n cynnwys marwolaethau aelodau'r lluoedd arfog. Byddant hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ynglŷn ag ymhle yng Nghymru a Lloegr y cynhelir cwestau, ac yn caniatáu i achosion aelodau'r lluoedd arfog gael eu trosglwyddo i'r Alban.

75. Cytunwyd gyda'r Arglwydd Brif Ustus ar y set hon o swyddogaethau i'w trosglwyddo. O safbwynt ymarferol, mae'n debygol y bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn dirprwyo'r gwaith o roi'r swyddogaethau hyn ar waith i farnwr arall. Ni fyddai'r barnwr hwn yn gyfrifol am arwain crwneriaid nac am eu diwylliant na'u hymddygiad. Serch hynny, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn gydgyfrifol am system ystyried cwynion am ymddygiad personol crwneriaid a phenderfynu yn eu cylch. Bydd y Llywodraeth yn sefydlu Bwrdd Gweinidogol, a Phwyllgor Sefydliadau Pobl Mewn Profedigaeth â chadeirydd annibynnol yn gefn iddo i sbarduno'r newidiadau pellach y mae eu hangen ar y system. Bydd y Siarter Genedlaethol newydd y mae'r adran yn ei chreu'n sicrhau bod pobl yn deall yn well pa safonau gwasanaeth y dylid eu disgwyl ac yn egluro sut y caiff pobl mewn profedigaeth herio penderfyniad crwner neu gwyno am y crwner neu'r gwasanaeth a ddarperir. Fel sy'n wir o dan y trefniadau presennol, dylid cyflwyno cwynion am ymddygiad personol crwner i'r Swyddfa Cwynion Barnwrol. Os oes rhywun am gwyno am y gwasanaeth a ddarperir, am weinyddiaeth gwasanaeth y crwner neu am ymddygiad swyddogion crwneriaid neu aelodau eraill o'r staff, dylid codi'r mater gyda'r crwner neu'r awdurdod lleol perthnasol. Bydd y gallu presennol i adolygu'n farnwrol benderfyniad crwner neu i geisio ail gwest drwy wneud cais i'r Twrnai Cyffredinol ar gael o hyd ac nid yw'r diwygiadau a gynigir yn effeithio ar hynny.

Diwygio anstatudol

76. Bydd y Bwrdd Gweinidogol anstatudol yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â pholisi, safonau gwasanaeth ac agweddau gweinyddol eraill ar y gwasanaeth a ddarperir gan grwneriaid. Y bwrdd fydd yn gyfrifol am sefydlu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol. Bydd yn cael ei gynghori a'i gefnogi gan Bwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth a fydd yn cael ei gadeirio'n annibynnol a'i gynrychioli ar y Bwrdd Gweinidogol. Bydd gan y pwyllgor gyloch gwaith penodol, sef monitro safonau'r gwasanaeth sydd yn y Siarter Genedlaethol (gweler paragraff 78 isod).
77. Bydd y bwrdd yn ystyried materion polisi penodol, lle nad yw'r rhain yn effeithio ar annibyniaeth farnwrol neu ar faterion barnwrol, ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain. At hynny, bydd y Bwrdd yn ystyried ystadegau gwladol a gasglwyd gan grwneriaid Cymru a Lloegr i ategu'r cynllun gweithredu ar gyfer diwygio. Mae'r

ystadegau chwarterol rheolaidd a gyhoeddir ynglŷn â hynt cwestau i aelodau'r lluoedd arfog a ledir mewn brwydrau ac ymarferion dramor yn cynnig model ar gyfer tryloywder.

78. Ar 19 Mai 2011 cyhoeddodd yr adran Siarter Genedlaethol newydd Gwasanaeth y Crwner ar gyfer ymgynghori. Mae'n rhestru'r safonau gwasanaeth y gellir eu disgwyl a'r llwybrau gwneud iawn sydd ar gael os bydd rhywun yn teimlo nad yw'r rhain wedi'u cyflawni. Mae'r Siarter yn rhan bwysig o'n pecyn diwygiadau i godi safonau, oherwydd, ynghyd â chamau eraill, bydd yn gymorth i bobl ddeall yn well sut mae'r system yn gweithio, a sut y gallant gymryd rhan mewn ymchwiliad gan grwner. Bydd yr ymgynghoriad ar waith tan 5 Medi 2011.⁶.
79. Nid oes angen cynnal Asesiad Effaith ar y cynnig hwn. Nid oes neb yn gwneud gwaith swyddfa'r Prif Grwner ar hyn o bryd ac mae'r swyddogaethau hynny a drosglwyddir yn niwtral o ran costau oherwydd bod modd eu cynnwys o fewn yr adnoddau presennol. Fel y manylir ym mharagraff 74 uchod, y swyddogaethau nas rhoddir ar waith yw'r rheini a fyddai'n golygu cost ychwanegol. Mae'r costau a'r arbedion a fyddai ynghlwm wrth sefydlu swyddfa'r Prif Grwner wedi cael eu hasesu o'r blaen drwy'r Asesiad Effaith a baratowyd ar gyfer Deddf 2009. Nid yw'r cynigion yn y papur hwn yn cyflwyno na chostau nac arbedion newydd o'u cymharu â'r hyn a ganfuwyd yn yr Asesiad hwnnw.
80. Pan wneir rheolau a rheoliadau newydd i lywodraethu'r system (dan Ddeddf 2009) cynhelir ymgynghoriad ac Asesiad Effaith.

Cwestiwn 14: Beth yw eich barn am y cynnig i drosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor: mewn egwyddor, ac/neu yng nghyswllt y swyddogaethau penodol y manylir arnynt yn Atodiad A?

Cwestiwn 15: Beth yw eich barn am y Bwrdd Gweinidogol a gynigir a'r pwyllgor ategol, Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth?

Cwestiwn 16: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Prif Grwner nad yw'r cynigion uchod yn darparu'n ddigonol ar eu cyfer, yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau.

Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus:

81. Mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am graffu ar sut mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau ac am eu hadolygu, gan wneud argymhellion perthnasol i'r Arglwydd Ganghellor. Ni fydd y cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn newid na dyletswyddau na swyddogaethau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Yr adran sy'n brif gyfrifol am bolisi ym maes Deddf Galluedd Meddyliol

⁶ Mae'r ymgynghoriad ar gael yn <http://www/justice.gov.uk/consultaiois/index.htm>

2005 ac mae'r Llywodraeth yn dal yn ymrwymedig i egwyddorion pwysig y Ddeddf, sy'n golygu bod yr unigolion hynny sydd o bosibl yn cael anhawster o ran galluedd yn elfen ganolog o unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

82. Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus oherwydd ei bod yn credu mai'r ffordd orau o graffu'n briodol ar swyddogaethau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'u hadolygu yw drwy ddatblygu trefniadau llywodraethu sy'n gweddu i statws Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fel asiantaeth weithredol. Mae Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi derbyn y cynnig i'w ddiddymu, gan sylweddoli na all bwrdd cynghori fel hyn barhau yn y dyfodol ac ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol a dyletswydd y Llywodraeth i ganolbwyntio'r gwariant ar feysydd hanfodol.
83. Mae'r adran, gyda chymorth Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn datblygu trefniadau llywodraethu cadarn, amgen ar gyfer Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Bydd y trefniadau'n cydnabod safle Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus o fewn yr adran ac yn cynnig y sicrwydd angenrheidiol bod swyddogaethau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac amcanion y Swyddfa yn cael eu cyflawni'n briodol.
84. Y cynllun yw y bydd y trefniadau hyn yn cynnwys cyfraniad anweithredol annibynnol gan unigolion sydd â'r wybodaeth briodol a'r arbenigedd priodol, a all gynnig yr her a'r sicrwydd angenrheidiol fel rhan o fframwaith llywodraethu newydd.
85. Bydd diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn lleihau dyblygu swyddogaethau ac yn arbed swm cronnus nominal gweinyddol o oddeutu £300,000 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 i 2014-15 ar sail gwariant llinell sylfaen 2010-11. Sylwer mai amcangyfrif yw'r ffigur hwn ac y gall newid.
86. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus gan nad yw'r cynnig i'w ddiddymu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 17: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus?

Cwestiwn 18: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Yr Archifau Gwladol

87. Rhestrir y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus a'r Cyngor Cynghori am Gofnodion Cyhoeddus yn atodlen 5 o'r Bil. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r pŵer yng nghymal 5 o'r Bil i addasu swyddogaethau yng nghyswllt y rhain.
88. Cynigir defnyddio'r pŵer hwn i ailenwi'r **Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus** a rhoi iddi'r teitl Yr Archifau Gwladol. Rhan o'r newid hwnnw fydd trosglwyddo i'r corff hwn swyddogaethau penodol a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr amrywiol gyrff eraill sy'n ffurfio'r Archifau Gwladol ar ei ffurf bresennol. Er enghraifft, caiff swyddogaethau statudol Llyfrfa Ei Mawrhydi eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r Archifau Gwladol. Canlyniad hyn yw y rhoddir safle statudol i'r Archifau Gwladol ac y bydd gan y corff swyddogaethau statudol sydd wedi'u diffinio'n glir. Bydd hyn o fudd drwy wneud swyddogaethau'r Archifau Gwladol yn eglur, a bydd y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r corff yn adlewyrchu'n well y strwythur a'r drefniadaeth weinyddol bresennol a sefydlwyd rhwng 2003 a 2006.
89. Wrth wneud hynny, nid yw'n fwriad gan y Llywodraeth ddileu unrhyw un o swyddogaethau na dyletswyddau'r Archifau Gwladol ar ei ffurf bresennol na dadwneud y diwygiadau gweinyddol sydd wedi'u gwneud eisoes. Bwriad y cynnig yw sicrhau, lle bo modd, bod y swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr amrywiol gyrff hynny sydd yn awr yn rhan o'r Archifau Gwladol yn cael eu cynnwys yn y corff statudol priodol sy'n dwyn yr enw hwnnw.
90. Cynigir y caiff **Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus**, ar adeg briodol ei ailenwi'n Geidwad yr Archifau Gwladol. Rhan o'r newid hwnnw fydd defnyddio'r pŵer yng nghymal 5 er mwyn i swyddogaethau'r Comisiynydd Llawysgrifau Hanesyddol gael eu cyflawni gan y Ceidwad, gan greu un safle statudol clir.
91. Mae'r **Cyngor Cynghori am Gofnodion Cyhoeddus** wedi'i restru yn atodlen 5 o'r Bil hefyd. Mae'r Cyngor Cynghori'n cynnig cyngor i'r Arglwydd Ganghellor am faterion sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus. Cynigir y bydd y Cyngor Cynghori'n ysgwyddo swyddogaethau dau gorff anstatudol, sef y Cyngor Cynghori am Lawysgrifau Hanesyddol a'r Cyngor Cynghori am Gofnodion ac Archifau Gwladol. Yna, ail-enwir y Cyngor Cynghori am Gofnodion Cyhoeddus yn Gyngor Cynghori am Gofnodion ac Archifau Gwladol. Bydd hyn yn adlewyrchu'r arferion gweinyddol presennol, gan fod y tri chyngor eisoes yn gweithredu fel un corff, o dan gadeiryddiaeth Meistr y Rholiau. Bydd y diwygiad hwn a gynigir yn ffurfioli'r trefniadau sydd ar waith eisoes ac yn cynnig mwy o eglurder.
92. Mae Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus a Meistr y Rholiau yn cefnogi'r newidiadau hyn a fydd yn sicrhau safle statudol eglurach i'r Archifau Gwladol a'r Cyngor Cynghori am Gofnodion Cyhoeddus, gan gwblhau'r newidiadau a ddaeth i rym rhwng 2003 a 2006.

93. Gan na fydd y swyddogaethau'n newid, ni fydd i'r cynigion ddim goblygiadau ariannol ac ni fydd effaith er gwaeth ar y staff. Serch hynny, bydd y cynigion yn gwneud y trefniadau presennol yn fwy clir o safbwynt cyfreithiol ac yn sicrhau mwy o eglurder.
94. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer cyrff yr Archifau Gwladol gan nad yw'r cynnig i'w ddiwyddu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol yn awr inni adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol a gyflawnwyd eisoes ar ffurf deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu cyfuno'n briodol?

Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr:

95. Sefydlwyd y Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr i ddechrau yn 2003 i roi cyfle i ddiodefwyr troseddau gael llais wrth ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol a'r datblygiadau cysylltiedig mewn gwasanaethau a chymorth i'r sawl sy'n diodefwyr yn sgil troseddu.
96. Er 2006, mae wedi bod yn ofyniad statudol cael panel a rhestrir ei swyddogaethau yn adran 55 o Ddeddf Troseddau a Ddiodefwyr Trais Domestig 2004 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn ymgynghori â'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr ar yr adegau hynny ac yn y fath fodd ag y gwelo'n briodol ynglŷn â materion sydd yn ei olwg ef yn berthnasol i ddiodefwyr neu dystion. Lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr mewn unrhyw flwyddyn benodol, rhaid iddo drefnu i'r panel baratoi adroddiad.
97. Cylch gorchwyl y panel diwethaf oedd cynghori gweinidogion ynglŷn â barn diodefwyr troseddau, gyda golwg benodol ar eu hymwneud â'r system cyfiawnder troseddol a'i hasiantaethau. At hynny, roeddent i gynnig eu barn a'u cyngor am atal troseddau o safbwynt diodefwyr a chynnig barn sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn ceisio datblygu a diogelu eu hawliau diodefwyr.
98. Rhwng 2006 a 2009, roedd y Panel yn cynnwys tua deg o aelodau, pob un ohonynt naill ai wedi cael profiad o droseddu eu hunain (fel diodefwyr, neu fel aelod o deulu un a lofruddiwyd neu a ddynladdwyd) neu wedi rhoi cymorth i ddiodefwyr. Er 2010, mae'r Ddeddf wedi mynnu bod y Comisiynydd Diodefwyr a Thystion yn cael ei benodi'n aelod o unrhyw banel a'i fod yn ei gadeirio. Er na fydd aelodau'r Panel yn cael tâl, mae cost ariannol gysylltiedig bychan yn deillio o gostau recriwtio a threuliau'r aelodau.
99. Pan ddaeth eu cyfnod ar y panel i ben ym mis Gorffennaf 2009, gwahoddwyd yr aelodau i aros am flwyddyn arall nes penodi'r

- Comisiynydd. Arhosodd pedwar yn aelodau o'r Panel tan fis Mai 2010 pan ddechreuodd y Comisiynydd yn ei swydd. Nid oes neb newydd wedi'i benodi cyn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â diddymu'r panel neu beidio.
100. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid diddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr, gan nad oes angen ei swyddogaethau bellach ers penodi'r Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion (Louise Casey ar hyn o bryd). Roedd rhai'n poeni hefyd am allu'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr i gynrychioli ystod eang ac amrywiol o ddiodefwyr.
101. Mae swyddogaethau statudol y Comisiynydd yn ehangach na swyddogaethau'r Panel. Yn ôl Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, mae'r swyddogaethau hyn yn mynnu ei bod yn hyrwyddo buddiannau diodefwyr a thystion, gan gymryd pa gamau bynnag sy'n briodol yn ei barn hi, gyda golwg ar annog arferion da wrth ymdrin â hwy. Bydd y Comisiynydd hefyd yn adolygu'n barhaus sut mae'r cod ymarfer ar gyfer diodefwyr yn gweithio. Yn rhinwedd ei swyddogaethau, caiff ymgynghori ag unrhyw un sydd yn ei barn hi'n briodol neu gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.
102. Yn sgil penodi'r Comisiynydd a'i chylch gwaith eang, mae'r Llywodraeth o'r farn nad dyletswydd statudol i benodi ac ymgynghori panel cynghori bychan ynglŷn â'r holl faterion sy'n ymwneud â diodefwyr yw'r ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi rhagor. Mae'r Comisiynydd, sydd wedi bod yn lladmerydd cenedlaethol cryf ar ran diodefwyr ers ei phenodi, yn gallu targedu gwaith ymgynghori, gan gyrraedd y bobl iawn ar y lefel iawn.
103. At hynny, mae'r adran yn dal i ymwneud a gweithio'n uniongyrchol â grwpiau sy'n gweithio ar ran diodefwyr. Mae swyddogion wedi dechrau cyfres o weithdai eisoes, er enghraifft gyda mudiadau diodefwyr ac mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am ddiodefwyr hefyd wedi bod yn bresennol yn y rheini.
104. Mae a wnelo'r ail reswm, sy'n rheswm llai pwysig dros ddiddymu'r Panel â'i effeithiolrwydd. Mewn arolwg annibynnol a gomisiynwyd yn 2009, canfuwyd, er bod strwythur y Panel yn dda, bod sawl peth yn ei rwystro rhag gweithredu'n hwylus ac yn golygu ei fod yn llai effeithiol. Mae'r manylion i'w gweld yn adroddiad 'Diwedd Deiliadaeth' y panel 2006-2009.⁷
105. Mae'r adran yn awyddus i sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o unigolion a grwpiau'n cyfrannu at bolisiau er mwyn i'r Llywodraeth allu ymateb yn unol â hynny i'r materion hynny sydd bwysicaf i ddiodefwyr. Am y rhesymau a restrir uchod, nid yw hyn bob tro wedi digwydd o dan y trefniadau presennol. Mae'r Llywodraeth yn credu bod penodi'r

⁷ Mae copi pdf o'r adroddiad ar gael drwy anfon ebost i PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk

Comisiynydd yn cynnig ffordd hyblyg a mwy agored o ymwneud â dioddefwyr.

106. Ni ddisgwylir unrhyw arbedion gweinyddol yn sgil diddymu'r Panel ond bydd llai o ddyblygu adnoddau a gweithgarwch.
107. Ni chredwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith ar gyfer y Panel gan nad yw'r cynnig i'w ddiddymu'n effeithio ar fusnes, ar gymdeithas sifil nac ar faterion rheoleiddio. Nid oes unrhyw effaith ar staff ac ni fydd y costau/buddion i'r sector cyhoeddus yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn.

Cwestiwn 20: Beth yw eich barn am y cynlluniau i ddiddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr?

Cwestiwn 21: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Panel Ymgynghorol i Ddioddefwyr na all y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion fynd i'r afael â hwy'n ddigonol? Dwyedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 22: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid:

108. Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid drwy Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i oruchwylio system cyfiawnder ieuentid a oedd ar chwâl ac yn anaeddfed ar y pryd. Yn y 12 mlynedd diwethaf, mae'r system wedi newid yn sylweddol. Gan ymateb i'r diffyg cydlynw a chydweithredu, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid wedi goruchwylio lledaenu'r Timau Troseddau Ieuentid drwy'r wlad a sefydlu ystâd ddiogel ar wahân i bobl ifanc. Mae'r elfennau craidd hyn o'r system cyfiawnder ieuentid bellach ar waith yn llwyr o ran darparu cyfiawnder ieuentid yn lleol.
109. Nid yw'r Llywodraeth yn credu rhagor bod angen corff ar wahân i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol dros y system cyfiawnder ieuentid. Mae'n well ganddi weld gweinidogion yn atebol am benderfyniadau pwysig megis llety diogel i blant a phobl ifanc. Dilëwyd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid o'r Bil Cyrff Cyhoeddus yn ystod cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi. Roedd yr Arglwyddi'n poeni am eu bod yn awyddus i sicrhau bod arweiniad clir yn yr Adran ym maes cyfiawnder ieuentid (ac yn benodol ar faterion sy'n canolbwyntio ar blant). Roeddent yn poeni hefyd y byddai swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yn cael eu llyncu gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy ac y collid arbenigedd staff y Bwrdd. Er mwyn ymateb i hyn, trafododd y gweinidogion atebion posibl gyda grŵp eang o arglwyddi a chafwyd rhywfaint o gefnogaeth wedyn i'w cynnig newydd i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid ond i sefydlu Is-adran Cyfiawnder Ieuentid arbennig o fewn Grŵp Polisi Cyfiawnder yr adran. Bydd yr Is-adran Cyfiawnder Ieuentid, a fydd y tu allan i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy yn parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuentid yn unol â dymuniad y

Llywodraeth ac yn cyflawni prif swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Dyma rai ohonynt:

- goruchwyllo Timau Troseddau Ieuenctid lleol;
- lledaenu arferion effeithiol;
- comisiynu ystâd ddiogel ar wahân;
- lleoli pobl ifanc dan glo.

110. Ni chaiff y cynigion effaith ar ddarparu cyfiawnder ieuenctid yn lleol. Bydd yr Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid yn sicrhau mai pobl sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion pobl ifanc fydd yn comisiynu ystâd ddiogel cyfiawnder ieuenctid ac yn gyfrifol am leoli pobl ifanc dan glo. Bydd y strwythur yn sicrhau hefyd bod cysylltiad clos yn parhau rhwng gwaith cyfiawnder ieuenctid yn y gymuned (sy'n cael ei wneud yn bennaf gan Dimau Troseddau Ieuenctid) a'r gwaith a wneir gyda throseddwyr ifanc dan glo, uchelgais sydd wrth wraidd cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer 'chwyldro adsefydlu'.
111. Mae John Drew, Prif Weithredwr presennol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, wedi cytuno i arwain y cyfnod pontio i strwythur newydd yr Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid ac i arwain yr Is-adran wedi hynny. Bydd ymwneud John â'r gwaith yn sicrhau parhad rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid newydd a bydd o gymorth i sicrhau bod y sefydliad newydd yn bwrw gwreiddiau yn yr adran gan gadw profiad ac arbenigedd staff y Bwrdd.
112. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddisgrifiwyd yn ymgynghoriad yr adran ar ei Phapur Gwyrdd 'Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr mewn ffordd Effeithiol', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010.⁸ Mae'r adran yn meddwl mai dyma'r ffordd orau o barhau i leihau troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc. Darperir goruchwyliaeth annibynnol drwy gyfrwng grŵp cynghori anstatudol a hefyd, bydd y Fonesig Sue Street, Cyfarwyddwr Anweithredol yn yr adran, sydd â phrofiad o gyfiawnder ieuenctid a gwybodaeth am y maes, yn dangos diddordeb brwd mewn cyfiawnder ieuenctid o fewn yr adran.
113. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith i gynyddu atebolrwydd gweinidogion am weithgareddau a wneir ar ran y wladwriaeth. Yn ei dro, bydd sicrhau bod y Gweinidog yn fwy atebol am gyfiawnder ieuenctid yn cryfhau gallu'r Is-adran Cyfiawnder Ieuenctid i ddylanwadu ar bolisi ar draws llywodraeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod adrannau eraill y llywodraeth yn chwarae eu rhan hwythau o ran atal pobl ifanc rhag ymwneud â throseddu ac aildroseddu. Yr arbedion mwyaf uniongyrchol y gellir eu priodoli i'r diddymu fydd costau aelodau'r bwrdd na fydd mo'u hangen bellach. Mae'r adran yn amcangyfrif mai oddeutu £250,000 y

⁸ <http://www.justice.gov.uk/consultations/closed-with-response.htm> (cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghori ar 21 Mehefin 2011)

flwyddyn yw'r costau hyn. Mae'r adran hefyd yn amcangyfrif yr arbedir oddeutu £6 miliwn o ran costau gweithredu erbyn 2014–15 yn sgil trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i'r adran. Gwireddir yr arbedion hyn drwy integreiddio gwasanaethau'n glos rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r adran. Bydd hyn yn cynnwys mwy o effeithlonrwydd drwy integreiddio swyddogaethau'r swyddfa gefn megis TG, Adnoddau'r Gweithlu a chyfathrebu a thrwy eu cydleoli yn adeiladau'r adran. Sylwer y gall yr amcangyfrifon hyn newid.

Cwestiwn 23: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid?

Cwestiwn 24: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 25: Sut yn eich barn chi y gall y Llywodraeth sicrhau orau bod cyfiawnder Ieuencid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn y dyfodol?

Holiadur

Byddem yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn. Croeso ichi ateb y rheini y mae gennych ddi-ddordeb penodol ynddynt yn unig. Nodwch rifau'r cwestiynau perthnasol yn eich ymateb.

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd?

Cwestiwn 2: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 3: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Byrddau'r Llysoedd

Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Byrddau'r Llysoedd?

Cwestiwn 5: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Byrddau'r Llysoedd na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, sut y gall llysoedd a thribiwnlysoedd lleol atgyfnerthu'r cysylltiad sydd rhyngddynt a'r gymuned leol?

Cwestiwn 7: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Pwyllgor Rheolau Llys y Goron

Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron?

Cwestiwn 9: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau Llys y Goron a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r Arglwydd Brif Ustus ac i'r pwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau Llys y Goron? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (AGLIEM):

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu AGLIEM?

Cwestiwn 11: A oes unrhyw rai o swyddogaethau AGLIEM na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon

Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon?

Cwestiwn 13: A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion i ddiddymu Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon a throsglwyddo'i swyddogaethau ymgynghorol i bwyllgorau rheolau eraill yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chylch gwaith presennol Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Swyddfa'r Prif Grwner

Cwestiwn 14: Beth yw eich barn am y cynnig i drosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor: mewn egwyddor, ac/neu yng nghyswllt y swyddogaethau penodol y manylir arnynt yn Atodiad A?

Cwestiwn 15: Beth yw eich barn am y Bwrdd Gweinidogol a gynigir a'r pwyllgor ategol, Pwyllgor Sefydliadau Pobl mewn Profedigaeth?

Cwestiwn 16: A oes unrhyw rai o swyddogaethau'r Prif Grwner nad yw'r cynigion uchod yn darparu'n ddigonol ar eu cyfer, yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau.

Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus:

Cwestiwn 17: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus?

Cwestiwn 18: A oes unrhyw rai o swyddogaethau Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Yr Archifau Gwladol:

Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol yn awr inni adlewyrchu'r newidiadau gweinyddol a gyflawnwyd eisoes ar ffurf deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu cyfuno'n briodol?

Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr:

Cwestiwn 20: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr yn gorgyffwrdd â'i gilydd yn sylweddol?

Cwestiwn 21: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr na ellir mynd i'r afael â hwy'n ddigonol gan y Comisiynydd Ddiodefwyr a Thystion? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 22: A gaiff y cynigion unrhyw effaith uniongyrchol o bwys arnoch chi (os felly, esboniwch yr effaith)?

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:

Cwestiwn 23: Beth yw eich barn am y cynnig i ddiddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid?

Cwestiwn 24: A ydych chi'n credu bod unrhyw rai o swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na fyddant yn cael eu cyflawni'n ddigonol yn eich barn chi ar ôl y diddymu arfaethedig ac wrth ymdrin â'r swyddogaethau yn y dyfodol fel yr awgrymir uchod? Dywedwch beth yw'r rhain a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 25: Sut yn eich barn chi y gall y Llywodraeth sicrhau orau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn y dyfodol?

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth inni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd yr ydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati).	
Dyddiad:	
Enw'r cwmni/corff (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod inni dderbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhwch enw'r grŵp a chrynodeb o'r bobl neu'r cyrff yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut mae ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 11/10/11 i'r cyfeiriad isod:

Tîm y Bil Cyrff Cyhoeddus
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Pwynt post 3.18
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 6168
Ffacs: 020 3334 6452
E-bost: PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk

Gallwch ymateb ar lein yn
<http://survey.euro.confirmit.com/wix/p700488344.aspx>

Copiau ychwanegol

Mae modd cael rhagor o gopiau o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael ar-lein hefyd yn
<http://www.justice.gov.uk/consultations/reform-public-bodies.htm>

Mae modd gofyn i am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau amgen drwy anfon e-bost i PBB.Consultation@justice.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 020 3334 6168.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghori hwn erbyn 31/12/11. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol nodi'n gryno'r bobl a'r cyrff hynny y maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, neu efallai y caiff ei datgelu'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am inni drin yr wybodaeth a rowch chi'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, a bod hwnnw'n ymwneud ag ymrwymadau ynglŷn â chyfrinachedd, ymhlith pethau eraill. Felly, byddai'n

gymorth inni pe gallech chi esbonio inni pam yr ydych yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni'n wybodaeth gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn ofalus, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y cedwir yr wybodaeth yn gyfrinachol ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried yn ddatganiad sy'n clymu'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Meini prawf ymgynghori

Dyma'r saith maen prawf ar gyfer ymgynghori:

1. **Pa bryd y dylid ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fydd modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Hyd yr ymarferion ymgynghori** – Fel rheol, dylai ymgynghoriadau bara o leiaf 12 wythnos ond dylid ystyried amserlen hwy os yw hynny'n ymarferol ac yn synhwyrhon.
3. **Eglurder o ran cwrpas ac effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, beth sy'n cael ei gynig, i ba raddau y gellir dylanwadu ar bethau a chostau a buddion tebygol y cynigion.
4. **Ymarferion ymgynghori agored** – Dylid llunio ymarferion ymgynghori fel eu bod yn hwylus i'r bobl y bwriada'r ymarfer eu cyrraedd, gan eu targedu'n glir at y bobl hynny.
5. **Baich yr ymgynghori** – Mae'n hanfodol cadw baich yr ymgynghori mor ysgafn ag y bo modd er mwyn i'r ymgynghori fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy'n cefnogi'r broses.
6. **Ymarferion ymgynghori ymatebol** – Dylid dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori'n ofalus a rhoi adborth clir i'r ymatebwyr ar ôl yr ymgynghori.
7. **Y gallu i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n ymgynghori geisio canllawiau ynglŷn â sut mae cynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn sgil y profiad.

Manylion cysylltu Cydlynnydd yr Ymgynghoriad

Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at y person cyswllt a enwir yn yr adran Sut mae Ymateb.

Serch hynny, os oes gennych unrhyw gŵyn neu sylw ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech gysylltu â Chydlynnydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn consultation@justice.gsi.gov.uk

Neu, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Cydlynnydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

Yr Uned Gwell Rheoleiddio

Gwasanaethau Dadansoddi Corfforaethol a Mynediad at Gyfiawnder

7^{fed} Llawr, Piler 7.02

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

Atodiad A: Trosglwyddo swyddogaethau'r Prif Grwner.

Adran o Ddeddf y Crwneriaid a Chyfiawnder	Disgrifiad o swyddogaeth statudol y Prif Grwner	Trosglwyddo swyddogaeth
1, 2, 3	Prif Grwner i gyfarwyddo crwner i gynnal ymchwiliad	Yr Arglwydd Brif Ustus
12 a13	Prif Grwner i hysbysu'r Arglwydd Adfocad y dylid cynnal ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau i Ddamweiniau Marwol a Marwolaethau Sydyn (yr Alban) 1976. Y Prif Grwner i gyfarwyddo crwner i gynnal ymchwiliad yng Nghymru neu yn Lloegr os bydd corff wedi'i ddwyn i'r Alban	Yr Arglwydd Brif Ustus
14	Prif Grwner i ddynodi ymarferwyr meddygol at ddiben cynnal post mortem	Yr Arglwydd Ganghellor
16	Uwch grwner sy'n cynnal ymchwiliad nad yw wedi'i gwblhau o fewn blwyddyn i hysbysu'r Prif Grwner ynglŷn â'r ffaith honno a hysbysu'r Prif Grwner o ddyddiad cwblhau'r ymchwiliad. Y Prif Grwner i gadw cofrestr o hysbysiadau a roddir o dan yr adran hon	Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn crynhoi adroddiadau ac yn cadw cofrestr
17	Rhaid i'r Prif Grwner: <ul style="list-style-type: none"> • Fonitro ymchwiliadau i farwolaethau yn y lluoedd arfog. • Sicrhau bod crwneriaid sy'n cynnal ymchwiliadau o'r fath wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud hynny. 	Datganiad chwarter gan y Gweinidog a chyhoeddi ystadegau am farwolaethau aelodau'r lluoedd arfog i barhau; ymdrinnir â hyfforddiant o dan adran 37 (gweler isod). Serch hynny, ni chychwynnir y ddarpariaeth ei hun.
18	Yr Arglwydd Ganghellor i ymgynghori â'r Prif Grwner cyn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau ymarferwyr meddygol	Ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus yn lle i'r Prif Grwner

Adran o Ddeddf y Crwneriaid a Chyfiawnder	Disgrifiad o swyddogaeth statudol y Prif Grwner	Trosglwyddo swyddogaeth
36	<p>Y Prif Grwner i adrodd i'r Arglwydd Ganghellor bob blwyddyn</p> <p>Crwneriaid i adrodd i'r Prif Grwner ynglŷn â chamau i'w cymryd er mwyn atal rhagor o farwolaethau</p>	<p>Ni roddir y gofyniad ar waith i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Arglwydd Ganghellor</p> <p>Adroddiadau crwneriaid ynglŷn â'r camau i'w cymryd er mwyn atal marwolaethau eraill i'w cyflwyno i'r Arglwydd Ganghellor yn lle i'r Prif Grwner</p>
37	Y Prif Grwner i wneud rheoliadau ynglŷn â hyfforddiant	Yr Arglwydd Brif Ustus
40	Y Prif Grwner i fod yn gyfrifol am system apeliadau newydd	Nid effeithir ar y gallu presennol i gynnal adolygiad barnwrol ar benderfyniad crwner na cheisio ail gwest drwy wneud cais i'r Twrnai Cyffredinol gan y diwygiadau arfaethedig. Serch hynny, ni fydd system apeliadau newydd.
41	<p>Ymchwiliad i'w gynnal gan y Prif Grwner, Crwner y Trysor, barnwr, cyn farnwr neu gyn grwner</p> <p>Y Prif Grwner i ofyn i'r Arglwydd Brif Ustus benodi barnwr neu gyn farnwr i weithredu yn y cyswllt hwn</p>	Yr Arglwydd Ganghellor i ofyn i'r Arglwydd Brif Ustus benodi barnwr
42	Yr Arglwydd Ganghellor i roi canllawiau ynglŷn â sut y dylai system y crwneriaid weithredu yng nghyswllt pobl â diddordeb, ar ôl ymgynghori â'r Prif Grwner	Ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus yn lle'r Prif Grwner

Atodiad B: Hysbysu rhanddeiliaid ynglŷn â chyhoeddi'r ddogfen ymgynghori (ac eithrio asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau eraill y llywodraeth)

Sylwer bod y rhanddeiliaid sydd wedi'u rhestru yma'n rhai y mae ganddynt ddi-ddordeb penodol mewn un o gyrff yr adran neu mewn mwy nag un o'r gyrff hynny sydd yn y Bil Cyrff Cyhoeddus. Serch hynny, nid yw'r rhestr hon yn un gaeedig: croesewir barn gan eraill a chanddynt ddi-ddordeb mewn un neu mewn mwy nag un o'r gyrff hyn.

Ymgynghoreion statudol

Y corff neu ddeilydd y swydd y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef;

Pa berson bynnag arall sydd yng ngolwg y gweinidog yn cynrychioli buddiannau yr effeithir arnynt yn sylweddol yn sgil y cynnig (gweler ymgynghoreion eraill isod)

Gweinidogion yr Alban os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yn yr Alban neu yng nghyswllt yr Alban lle bydd Gweinidogion yr Alban yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny

Un o Adrannau Gogledd Iwerddon os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon neu yng nghyswllt Gogledd Iwerddon lle bydd yr adran yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny

Gweinidogion Cymru os yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw fater, i'r graddau ei fod yn berthnasol yng Nghymru neu yng nghyswllt Cymru lle bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â hynny

Yr Arglwydd Brif Ustus lle bydd y swyddogaethau y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn berthnasol i weinyddu cyfiawnder

Pa rai bynnag eraill y bydd y gweinidog yn eu hystyried yn briodol (gweler ymgynghoreion eraill isod)

Ymgynghoreion eraill

Cyffredinol

Ochr Undebau Llafur yr Adrannau

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Cymdeithas Ombwdsmydd Prydain ac Iwerddon

Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Byrddau'r Llysoedd

Cyngor y Bar
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas yr Ynadon

Pwyllgor Rheolau Llys y Goron

Cyngor y Bar
Cymdeithas y Cyfreithwyr

Pwyllgor Rheolau'r Llysoedd Ynadon:

Cyngor y Bar
Cyngor y Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas yr Ynadon

Swyddfa'r Prif Grwner

Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas Swyddogion y Crwner
Cymdeithas y Crwneriaid
Cymorth i Ddiodefwr

Gofal mewn Profedigaeth Cruse
Gwasanaeth Cymorth Llys y Crwneriaid
Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol
INQUEST
Risg Cardiac yn yr Ifanc
Sefydliad yr Ysgyfaint ym Mhrydain
Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus

Age UK
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Cyngor Rhagoriaeth Reoleiddiol mewn Gofal Iechyd
Cymdeithas Alzheimer
Cymdeithas Cyfreithwyr dros yr Henoed
Cymdeithas Cyfreithwyr Iechyd Meddwl

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Gweithredu dros Eiriolaeth

Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol

Panel Ymgynghorol i Ddiodefwyr

Argyfwng Trais Rhywiol (Cymru a Lloegr)

Brake

Cyfiawnder ar ôl Rhyddhau

Cymdeithas Genedlaethol y Dioddefwyr

Cymorth ar ôl Llofruddiaeth a Dynladdiad

Cymorth i Ddiodefwyr

Dianc rhag bod yn Ddiodefwyr

Eaves Housing

Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Marwol yn y Cartref

Gofal Trawma 'Assist'

Llais Dioddefwyr

Llais y Deyrnas Unedig

Mamau yn erbyn Llofruddiaeth ac Ymosod yn y Deyrnas Unedig

Ymddiriedolaeth y Goroeswyr

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Barnado's

Comisiwn Ansawdd Gofal

Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant

Cymdeithas Genedlaethol Atal Creulondeb at Blant

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru

Cymdeithas y Plant

Cymdeithas y Plant

Cymdeithas yr Ynadon

NACRO

OFSTED

Pwyllgor Sefydlog Cyfiawnder Ieuencid (a Chymdeithas Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid)

Sefydliadau Diogel i Bobl Ifanc

Timau Troseddau Ieuencid

Y Comisiynydd Plant

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

Atodiad C: Termau a ddefnyddir yn aml

GLIEM	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
GLITEM	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
AGLIEM	Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi



Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Drwy'r post, dros y ffôn, y ffacs a'r e-bost

Y Llyfrfa

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

I archebu drwy Lein Uniongyrchol Rad y Senedd 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

Ebost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Y Siop Lyfrau Seneddol

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

Ebost: bookshop@parliament.uk

Rhyngwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Gall cwsmeriaid archebu cyhoeddiadau yma hefyd:

Y Llyfrfa yn Iwerddon

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451

Archebion ffacs: 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-181162-0



9 780101 811620